CYNGOR TREF FFESTINIOG TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog ● Heol Wynne ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3UF**

**☎ 01766 832 398 ✉ clerc@cyngortrefffestiniog.cymru**

# Rhaglen Pwyllgor Mwynderau

**•18 / 12 / 2023 •7.00yh • Siambr y Cyngor ac Ar-lein**

---

**DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (MYNEDIAD I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12 PARAGRAFF 26(2) [A]**

**NODER – mi fydd Cyngor Tref Ffestiniog yn cwrdd ar-lein drwy feddalwedd Zoom, fel y caniateir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**YN UNOL Â GOFYNION Y DARPARIAETHAU STATUDOL UCHOD HYSBYSIR TRWY HYN Y CYNHELIR CYFARFOD MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG**

Drwy feddalwedd Zoom ar y ddolen ganlynol:

https://us02web.zoom.us/j/82971709293?pwd=bDgwWnB6dkJ2K0h1Z3FIZnZlNXFJdz09

Meeting ID: 829 7170 9293
Passcode: 226216

**A hefyd wyneb yn wyneb yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog.**

**NOS LUN 18fed RHAGFYR 2023 AM 7.00 YR HWYR**

AT GADEIRYDD AC AELODAU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG

FE'CH GWYSIR DRWY HYN I FYNYCHU PWYLLGOR MWYNDERAU CYNGOR TREF FFESTINIOG


**MAE HAWL GAN AELODAU'R CYHOEDD I FYNYCHU'R CYFARFOD ONI WNEIR PENDERFYNIAD PRIODOL YN EU HATAL OHONO**

Noder y bydd y cyfarfod yn cael ei recordio oherwydd yr angen i gofnodi ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

| | | |
|---|---|---|
| **1** | | **Derbyn Ymddiheuriadau** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| **2** | | **Datgan Buddiannau**<br>Bydd ffurflen Datgan Buddiant Personol angen ei llofnodi yn y cyfarfod neu ei hanfon at y Clerc neu'r Dirprwy Glerc pan yn briodol. |
| | | |
| **3** | | **Cyfranogiad y Cyhoedd**<br>Ystyried ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes a gynhwysir ar yr agenda. (Mwyafswm 10 munud). |
| | | |
| **4** | | **Cofnodion**<br>Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar 20fed Tachwedd 2023. |
| **5** | | **Caeau Chwarae**<br>Arolwg misol Rhagfyr 2023<br>Derbyn crynodeb o archwiliadau misol Helen Jones o'r caeau chwarae. |
| | | |
| **6** | | **Llwybrau Cyhoeddus** |
| | | Nid does adroddiad y mis hwn. Mae'r tywydd wedi bod yn anffafriol, a llwybrau ucheldirol sydd gan John Evans i'w gwneud bellach. Mae digon o amser iddo eu cwblhau cyn diwedd y flwyddyn. |
| | | |
| **7** | | **Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**<br>Derbyn adroddiad ar waith y Swyddog Cynnal a Chadw.<br>• Bwrdd llechen ar gyfer y Berllan – heb gwblhau<br>• Llwyfan offer Cae Manod – heb gwblhau<br>• Blwch ffôn tu allan i'r Meirion – mae Gwyn wedi tynnu'r handlen, a rhoi 'self-tappers' i gau a hefyd wedi rhoi darn o bren i gau twll lle'r oedd y gwydr wedi ei dorri<br>• Compownd Cwt Canŵs – Gwyn wedi llenwi sgip; casglu honno ar 14/12/23. Bydd Gwyn yn dweud pan fydd angen llogi peiriant asglodi. |
| | | |
| **8** | | **Torri Gwrychoedd ac ati – Y Parc**<br>Adroddiad ar ymweliad a waned gan Seren, i roi pris am wneud y gwaith angenrheidiol yn Y Parc. |
| | | |
| **9** | | **Meinciau Gardd Encil**<br>Clerc yn ymddiheuro nad yw wedi cael cyfle i holi am brisiau meinciau llechen hyd yma – mae ar y rhestr waith. |
| **10** | | **Tendrau – Tendr Glanhau a Gwagio Biniau a Thendr Torri Gwair**<br>Derbyn adroddiad ar dendrau a dderbyniwyd ar gyfer y ddau gotnract uchod, a phenderfynu pa rai i'w derbyn. Copiau o'r ffurflenni tendr ynghlwm. |

| | | |
|---|---|---|
| 11 | | **MUGA yn y Parc**<br>Derbyn unrhyw ddiweddariad ar ymholiadau i greu MUGA yn Y Parc. |
| 12 | | **Cwt Canŵs**<br>Derbyn adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â’r Cwt Canŵs. |
| 13 | | **Rowndabowt Cae Bryn Coed**<br>Adrodd bod G L Jones wedi eu hysbysu bod y Cyngor Tref yn derbyn y pris i drwsio’r rowndabowt, ac y byddant yn gwneud y gwaith cyn gynted ag y bo modd. |
| 14 | | **Caffi’r Pafiliwn**<br>Adroddiad ar y gwaith adnewyddu trydanol. |
| 15 | | **Tir Pen-y-Bryn, Cae Baltic**<br>Derbyn diweddariad ar werthiant Tir Pen-y-Bryn. |
| 16 | | **Arwyddion ‘Dim Dringo’ ar gyfer Parciau a Chaeau Chwarae y Cyngor**<br><br>Derbyn adroddiad gan y Clerc ar archebu arwyddion Dim Dringo ar gyfer y Caeau Chwarae. |
| 17 | | **Adnewyddu Cais Amlinellol gyda'r holl fanylion wedi'u cadw yn ôl ar gyfer codi un annedd (Marchnad agored)**<br><br>**Tir ger Arenig, Llan Ffestiniog. LL41 4LL**<br><br>**Renewal of Outline Application with all details reserved for erection of one dwelling (Open market)**<br><br>**Land adjoining Arenig, Llan Ffestiniog. LL41 4LL**<br><br>Math Caniatad: Amlinell Application Type: Outline<br><br>Rhif Cais / Application Number: **NP5/59/53G**<br><br>Cyfeiriad Grid / Grid Reference: 270318.2 342175.7 |



Sioned Graham-Cameron
Clerc y Dref

DYDDIAD 12fed Rhagfyr 2023.